

Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd yn  
**Neuadd y Dref, Ffordd Wynnstey, Rhuthun, nos Lun, 8 Ebrill 2019 am 7:00p.m.**

**PRESENNOL:** Y Cyngorwyr Keiran Allsopp-Robson, Gavin Harris, Menna Jones, Anne Roberts, Dave Snape ac Emrys Wynne.

**96. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorwyr Jim Bryan ac Ian Lewney.

**97. DATGAN BUDDIANNAU**

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**98. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**PENDERFYNWYD:** *cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2019 yn gywir.*

**99. MATERION YN CODI**

Cyfeiriodd y Clerc at neges gan David Moseley yn ymddiheuro nad oedd paentio'r parc sglefrfyrdio wedi'i gwblhu, ac y byddai côt o baent yn cael ei rhoi yn ystod tywydd sych yn union cyn gwyliau Pasg yr ysgolion, a chwblhau'r gwaith un ai cyn y gwyliau neu'n union ar ôl hynny. Hefyd neges gan Tim Wynne-Evans, Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd (Gorfodaeth Amgylcheddol a Pharcio) Cyngor Sir Ddinbych ynghylch y sefyllfa gyda gorfodaeth amgylcheddol ers i'r cwmni preifat a oedd yn gyfrifol am hyn yn flaenorol, Kingdom, dynnu'n ôl o'r cytundeb. Cyfeiriodd hefyd at ymateb gan Joy Henderson, Swyddog Mynwentydd Cyngor Sir Ddinbych, ynghylch pryderon am safon y torri glaswellt ym Mynwent Llanrhydd, yn enwedig nad oedd y glaswellt wedi'i dorri yn cael ei gasglu a'i waredu. Roedd ei neges yn esbonio nad oedd y glaswellt yn cael ei gasglu oherwydd y byddai hynny'n cynyddu cost y gwaith ac yn lleihau nifer y toriadau yn ystod y flwyddyn, sy'n 10 y flwyddyn ar gylch tair wythnos ar hyn o bryd. Trafoddod yr aelodau hyn a

**PENDERFYNWYD:** *cysylltu gyda Chyngor Sir Ddinbych et oi bwysleisio mai mynwent lawnt yw Mynwent Llanrhydd ac y dylid ei chynnal yn unol â hynny, gyda'r glaswellt wedi'i dorri'n cael ei gasglu i osgoi crynodiad ohono ar y glaswellt, y cerrig beddau ac yn cael ei gludo ar esgidiau pobl.*

**100. ADRODDIADAU ARCHWILIADAU DIOGELWCH**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried yr adroddiadau archwiliadau diogelwch gan gwmni Play Inspection Company Ltd ynghylch maes chwarae'r Caeau Chwarae Coffa a pharc sglefrfyrdio Cae Ddôl. Roedd yr aelodau'n bryderus am y sylwadau ynghylch y rheiliau rhygnu yn y parc sgrialu. Roeddynt hefyd yn bryderus iawn ynghylch y diffyg cynnydd o ran uwchraddio maes chwarae'r Caeau Chwarae Coffa, lle tynnwyd sylw at nifer o feysydd risg isel.

**PENDERFYNWYD:**

**101. MAES CHWARAE'R CAEAU CHWARAE COFFA**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais am gyfraniad o £1,800 tuag at astudiaeth ddichonoldeb ynghylch y dewisiadau, sef adnewyddu'r maes chwarae neu leoli Ardal Chwarae Aml-ddefnydd ar safle'r maes chwarae. Mynegodd yr aelodau bryder at y diffyg cynnydd gyda'r safle, a'u teimladau bod ymarfer ymgynghori wedi'i gynnal eisoes.

**PENDERFYNWYD:** *ymateb i'r cais trwy fynegi y byddai'n well gan y Cyngor Tref gyfrannu tuag at un ai offer chwarae newydd neu Ardal Chwarae Aml-ddefnydd yn hytrach nag astudiaeth arall.*

**102. CWYNIION YNGHYLCH SAFONAU TORRI GLASWELLT**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cwynion ynghylch safon torri glaswellt gan contractwr torri glaswellt Cyngor Tref Rhuthun. Esboniodd y Cyngorydd Anne Roberts bod y cwynion yn ymwneud â diffyg arwyddion priodol wrth gyflawni'r gwaith torri glaswellt, a defnyddio peiriant torri glaswellt yn unig yn hytrach na pheiriant torri glaswellt a pheiriant strimio i dorri o gwmpas gwaelod polion arwyddbyst ac o dan y rhwystrau damwain ar ochr y ffordd.

**PENDERFYNWYD:** *cysylltu gyda'r contractwr i ofyn am restr dyddiadau torri'r glaswellt a monitro'r*

sefyllfa.

### **103. GRŴP TREF TACLUS**

Dywedodd y Cynghorydd Harris bod y sesiwn Tîm Tref Taclus ddydd Llun, 8 Ebrill, wedi'i chanslo gan fod gwirfoddolwyr wedi ymuno gydag ymgyrch flynyddol Tacluso'r Dref ddydd Sadwrn, 6 Ebrill. Byddai sesiwn mis Mai yn bwrw ymlaen fel y trefnwyd.

**PENDERFYNWYD:** *nodi'r diweddariad.*

### **104. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**PENDERFYNWYD:** *mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Fawrth, 7 Mai 2019 am 7:00pm.*

### **105. CYFLWYNIAD GAN KATHY BARHAM, SWYDDO LLES CYMUNEDOL – DEALL DEMENSIA, CYNGOR GWASANAETHAU GWIRFODDOL SIR DDINBYCH**

Cysylltodd y Clerc gyda Phrif Swyddog Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, a gadarnhaodd bod Kathy Barham yn sâl ac yn methu bod yn bresennol.

**PENDERFYNWYD:** *trefnu dyddiad arall ar gyfer y cyflwyniad uchod.*

### **106. DIWEDDARIAD GAN WEITHGOR YR HEN LYS**

Cyflwynodd y Cynghorydd Gavin Harris ddiweddariad yn dilyn cyfarfod gweithgor yr Hen Lys. Rhannodd bod y prosiect wedi derbyn cadarnhau y dyfarnwyd grant o £10,000 gan Gronfa Gymuned y Loteri Genedlaethol tuag at y costau adnewyddu. Yn dilyn y trafodaethau am y tynnu eitemau dechreuol allanol, esboniodd bod SECOM a oedd wedi gosod y system larwm diogeledd bresennol yn fodlon tynnu'r system ymaith, a chadw unrhyw rannau y gellid eu hailddefnyddio, am gost o £204 + TAW. Hefyd i gysylltu gyda chwmnïau adeiladu a gwaith coed i dynnu'r wal sgrîn bren, a'r strwythur yn amgau'r 'safe' nos a'r peiriant twll yn y wal, na ddylai gostio mwy na £300 + TAW. Hefyd cysylltwch gyda thri chwmni arbenigol Mecanyddol a Pheirianneg a argymhellwyd i roi cyngor ynghylch gofynion gwresogi ac inswleiddio'r Hen Lys. Roedd un wedi ateb yn esbonio nad oedd ganddynt y gallu i ymgymryd â'r gwaith ar hyn o bryd, a darparodd Davies Partnership ddyfynbris o £1,450 + TAW. Holodd yr aelodau a fyddai hyn yn effeithio ar yr yswiriant neu'r ceisiadau am grantiau, a chawsant eu sicrhau yr hysbyswyd pawb am y bwriadau hyn ac nad oedd unrhyw wrthwynebiadau.

**PENDERFYNWYD:** *derbyn y dyfynbrisiau uchod a bwrw ymlaen gyda'r gwaith, a bwrw ymlaen gyda thynnu'r wal sgrîn a strwythur amgau'r 'safe' nos a'r twll yn y wal, yn ddarostyngedig nad yw'r gost yn uwch na £300 + TAW.*